
NetworkRail

# Arhoswch yn ddiogel wrth groesfannau gwastad.

# Stopiwch, edrychwch a gwrandewch.




Mae pob croesfan wastad yn wahanol. Cymerwch amser i ddarllen yr arwyddion a dilynwch y cyfarwyddiadau ar sut i groesi’n ddiogel.

**Stopiwch, edrychwch a gwrandewch wrth groesfannau gwastad**

# Sut i groesi'n ddiogel.




**Arwydd stopiwch, edrychwch a gwrandewch**
Mae'r arwydd hwn yn dangos bod angen bod yn arbennig o wyliadwrus – efallai nad oes rhybudd gweledol na sain gan y groesfan.



**Goleuadau rhybuddio**
Mae gan lawer o groesfannau oleuadau rhybuddio coch. Rhaid ichi stopio pan mae'r rhain ynghynn am fod hyn yn golygu bod trên yn nesáu.

Cofiwch, efallai bod mwy nag un trên yn dod.



**Rhwystrau**
Mae rhai croesfannau'n 'agored' a heb rwystrau. Mae gan rai 'rwystr llawn' sy'n blocio'r ffordd gyfan. Mae gan eraill 'rwystr rhannol'.

Peidiwch â chroesi oni fydd y rhwystrau wedi codi'n llwyr.



**Larymau a seirenau**
Gwrandewch am wahanol fathau o larymau – mae rhai'n swnio fel seirenau a rhai fel cyrn trenau.

Os clywch sain neu neges rhybuddio, mae hyn yn golygu bod trên yn nesáu.
Byddwch yn ofalus a gwnewch yn siŵr bod unrhyw sain wedi stopio cyn croesi.